CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
1 Gorffennaf 2020, Trwy Fideo 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, L Roberts, D Gwyn, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Mummery, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03.06.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng D Gwyn yn cynnig a Cyng L Roberts yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae'r Clerc yn disgwyl penderfyniad y cais am y grant a bydd yn atgoffa y Cyngor Sir. Hefyd mae y Co-op wedi cynnig £250 at y cae chwarae
4.2	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.3	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** Yr oedd y Cadeirydd wedi cynnig trafod y mater yng nghyfarfod nesaf Unllais a gofyn a yw unrhyw gynghorau eraill wedi cael yr un broblem, ond oherwydd Covid-19 ni chynhaliwyd cyfarfodydd
4.4	**Defibrillator** – Mae y Clerc wedi derbyn y defibrillator. Bydd angen trefnu cael trydanwr.
4.5	**Gor-yrru Star** – Mae y Clerc wedi derbyn data gan y Cyngor Sir am y cyfnod 20.01.20 i'r 27.01.20. Dangosodd canlyniad yr arolwg gyflymder cyfartalog o 24mya dros y cyfnod o 7 diwrnod. Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir gynnal adolygiad arall pan fydd gwasanaeth yn y domen sbwriel yn ôl i normal gyda mwy o draffig
4.6	**Bus shelter Star** - Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y contractwr a bydd yn anfon nodyn atgoffa
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Priffyrdd
5.1	Gor-yrru Star – gweler 4.5
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Comisiwn Ffiniau** – Arolwg Etholiadol Ynys Mon Cynigion Drafft – dim sylwadau
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Derbyniwyd y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019/20 ynghyd ag adroddiad a sylwadau'r archwilydd mewnol. Cytunwyd bod y cyfrifon yn barod i'w hanfon ymlaen at yr archwilydd allanol
	Llofnod **Cadeirydd** **02.09.20**

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Adolygwyd y rheolau mewnol, cyllid, sefydlog a risg gyda dim newidiadau
8.2	Wifi – trafod yn y cyfarfod nesaf
8.3	“Drop” yn y lon rhwng yr Eglwys (Penmynydd) a’r groeslon. Bydd y Clerc yn dod a’r mater at sylw y Cyngor Sir
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **02.09.20**